HM Inspectorate of **Probation**
Arolygiaeth Prawf EM

# Trefniadau Pontio: Arolygiad dilynol

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

**Ionawr 2016**

© Hawlfraint y Goron 2016
Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho ar:
www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi / Her Majesty's Inspectorate of Probation
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

## Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i bawb o'r rheini a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn; heb eu cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiaeth wedi cael ei gynnal mor rhwydd.

Hoffem, yn benodol, ddiolch i staff a rheolwyr y Timau Troseddwyr Ifanc, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yr ymwelsom â hwy, ac uwch-reolwyr yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a Lloegr.

| | |
|---|---|
| Arolygydd Arweiniol Ei Mawrhydi | Caroline Nicklin |
| Y Tîm Arolygu | Jenny Daly, *Arolygydd Cynorthwyol Ei Mawrhydi*<br>Yvonne McGuckian, *Arolygydd Ei Mawrhydi* |
| Gwasanaethau Cymorth | Stephen Hunt, *Rheolwr Gwasanaethau Cymorth*<br>Alex Pentecost, *Rheolwr Cyfathrebu*<br>Henry Skwarczynski, *Swyddog Gwasanaethau Cymorth* |
| Prif Arolygydd Cynorthwyol | Alan MacDonald |

## Rhagair

Mae'r pontio o fyd ieuenctid i fyd oedolion yn amser heriol i unrhyw unigolyn, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol. Mae methiant i gynllunio pontio rhwydd ac effeithiol yn gosod rhwystr rhag cydymffurfio ac adsefydlu ym mywydau pobl ifanc.

Ni ddylai sefydliadau cenedlaethol, yn ystod y cyfnod hwn o newid pellgyrhaeddol, golli golwg ar eu cyfrifoldeb i roi cymorth a chanllawiau i staff, er mwyn sicrhau gwasanaeth effeithiol i bobl ifanc. Er ein bod yn derbyn bod yr achosion a archwiliwyd yn ystod yr arolygiad yn ymwneud â'r cyfnod pan oedd staff yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gorfod dygymod â'r her o weithio mewn sefydliadau newydd, a rheoli'r pontio i'r strwythur prawf newydd, canfuom oruchwyliaeth reolaethol annigonol gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Roedd angen canllawiau a chyngor effeithiol i arwain gwaith y Timau Troseddwyr Ifanc, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol ac mae absenoldeb hyn wedi arwain at arferion anghyson ledled Cymru a Lloegr. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn brin o fecanweithiau i sicrhau eu hunain y gofelir yn dda am ddefnyddwyr ifanc gwasanaethau ar adeg heriol yn eu bywydau. Roedd rhai sefydliadau lleol wedi ceisio mynd i'r afael â'r bwlch hwn ac wedi cyflwyno rhai canllawiau a phrosesau defnyddiol.

Canfuom enghreifftiau o arferion effeithiol gan rai rheolwyr achosion, rheolwyr troseddwyr a goruchwylwyr troseddwyr a oedd â dealltwriaeth glir o'r angen i rannu gwybodaeth yn brydlon, ond nid oedd hyn yn wir am bob un ohonynt. Roeddent yn briffio eu cydweithwyr cyfatebol yn effeithiol ac yn paratoi'n dda y bobl ifanc a oedd o dan eu goruchwyliaeth. Roedd unigolion allweddol eraill megis aelodau o deuluoedd, darparwyr ymyraethau eraill neu gynrychiolwyr timau Gadael Gofal yn cael eu diweddaru'n gyson o benderfyniadau allweddol ar drosglwyddo person ifanc i'r gwasanaeth oedolion neu beidio.

Fodd bynnag, nid oedd y mwyafrif o achosion wedi cael eu hadnabod fel achosion trosglwyddo posibl. Nid oedd unrhyw gysondeb o arferion ledled yr ardaloedd a arolygasom. Mewn llawer o achosion nid oedd dim, neu fawr ddim, paratoi, roedd methiant i ddefnyddio gwybodaeth a oedd ar gael a diffyg cynllunio a oedd yn amharu ar gynnydd tuag at bontio rhwydd. Roedd pobl ifanc yn mynd i mewn i'r gwasanaeth oedolion heb gael eu paratoi a heb gael eu hysbysu o'r disgwyliadau a oedd yn eu hwynebu. Credwn fod gwell canlyniadau o safbwynt lleihau aildroseddu yn debygol o ddeillio o oruchwyliaeth di-dor wedi ei gynllunio'n dda o bobl ifanc sy'n symud o Dimau Troseddwyr Ifanc at ddarparwyr gwasanaethau prawf i oedolion.

Yn olaf, mae'n bryder gennym nodi'r diffyg cynnydd cyffredinol gan amrywiol gyrff lleol a chenedlaethol wrth weithredu'r argymhellion yn adroddiad ar y cyd 2012 *Pontio: Arolygiad o'r trefniadau pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn y system cyfiawnder troseddol.* Ni chanfuwyd tystiolaeth ddigonol yn yr arolygiad diweddaraf hwn o welliannau mewn arferion yn ystod y tair blynedd a aeth heibio a byddwn yn ceisio cynlluniau gweithredu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr i fynd i'r afael â hyn.

Alan J MacDonald

**Alan MacDonald**
Prif Arolygydd Prawf Cynorthwyol Ei Mawrhydi
Ionawr 2016

## Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Cydnabyddiaeth** | **3** |
| **Rhagair** | **4** |
| **Crynodeb o'r canfyddiadau** | **6** |
| **Argymhelliad** | **7** |
| **1. Trefniadau pontio** | **8** |
| **2. Perfformiad o safbwynt cyflawni argymhellion blaenorol** | **10** |
| **Atodiad 1: Y broses arolygu** | **27** |
| **Atodiad 2: Enghraifft o arfer effeithiol** | **29** |
| **Atodiad 3: Geirfa** | **30** |
| **Rôl yr arolygiaeth a'r cod ymarfer** | **31** |

# Crynodeb o'r canfyddiadau

## Yr arolygiad

Amcanion yr arolygiad oedd ceisio darganfod i ba raddau roedd yr argymhellion yn adroddiad ar y cyd 2012, *Pontio: Arolygiad o'r trefniadau pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn y system cyfiawnder troseddol* wedi cael eu gweithredu ac a oedd gwelliannau mewn arferion wedi deillio o hynny. Arolygiad amlasiantaethol oedd yr arolygiad blaenorol; tra bo'r arolygiad hwn yn arolygiad asiantaeth sengl ac, felly, ni chyfwelasom â darparwyr eraill megis gwasanaethau iechyd ac addysg, ac nid ymwelasom â charchardai ychwaith yn ystod yr arolygiad hwn.

Ymwelasom â chwe ardal a siaradasom â staff strategol a staff gweithredol o dri sefydliad, sef Timau Troseddwyr Ifanc, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cynaliasom gyfweliadau a oedd yn ymwneud â 50 o achosion gan ddefnyddio offeryn asesu achosion yr oeddem wedi'i ddyfeisio, a oedd yn rhannol gyson â'r offeryn blaenorol.

## Beth ellir, neu na ellir, ei drosglwyddo?

Mae amrywiaeth o orchmynion y gellir eu gosod ar berson ifanc. Ar y pegwn 'isaf', mae gorchmynion nad ydynt yn cael eu trosglwyddo i fyd oedolion, megis gorchmynion atgyfeirio, gorchmynion adferol a rhai gorchmynion adsefydlu ieuenctid gyda gofyniad am weithgaredd penodol. Ar y pegwn mwy 'difrifol' o ddedfrydu, nid yw gorchymyn cadw a hyfforddi yn gyffredinol yn cael ei drosglwyddo. Mae gan orchmynion adsefydlu ieuenctid eraill ofynion o ran gweithgareddau penodol megis maethu dwys (ardaloedd peilot yn unig), goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth ddwys neu raglen, y gellir eu trosglwyddo pan fo'r gofyniad wedi ei gyflawni a'r person ifanc wedi cyrraedd ei 18fed pen-blwydd. Dylid trosglwyddo gorchmynion eraill i'r gwasanaethau oedolion, er enghraifft, gorchmynion adsefydlu ieuenctid gyda gofyniad a saif ar ei ben ei hun am waith di-dâl neu ddedfryd o garchar hirdymor (o dan adrannau 90/01 o *Ddeddf Pwerau Llysoedd Cyfiawnder (Dedfrydu) 2000*, adrannau 226/228 o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003*). Un egwyddor gadarn felly, yw mai mater i'r Tîm Troseddwyr Ifanc, ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yw ystyried a ddylid trosglwyddo achos, a hynny'n seiliedig ar yr hyn aseswyd fel anghenion y person ifanc a gofynion cyfreithiol y gorchymyn.

## Canfyddiadau cyffredinol

Yn ein hadroddiad thematig gwreiddiol yn 2012, fe wnaethom nodi nad oedd gwaith i hyrwyddo pontio rhwydd i bobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion bob amser yn derbyn sylw digonol – er inni ganfod enghreifftiau o arferion unigol effeithiol. Yn y gymuned, roedd rhai pobl ifanc nad oeddent yn cael eu hadnabod fel rhai cymwys i'w trosglwyddo ac, yn yr achosion hynny a adnabuwyd; roedd y gwaith o drosglwyddo'n cael ei gyflawni fel tasg weithdrefnol yn unig. Nid oedd pobl ifanc yn cael eu hysbysu na'u cynnwys fel y dylent. Yn gyffredinol, nid oedd digon o rannu gwybodaeth yn brydlon rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion i alluogi cynlluniau dedfrydau i gael eu cyflawni heb fod tarfu arnynt. Roedd y sefyllfa'n debyg yn y ddalfa, lle'r oedd cynllunio a chyfathrebu annigonol ymlaen llaw yn arwain at darfu ar gynllunio dedfrydau a chyflawni ymyraethau ar ôl i bobl ifanc gael eu trosglwyddo i Sefydliad Troseddwyr Ifanc dros 18 oed neu garchar. Yn gadarnhaol, roedd enghreifftiau o drefniadau ysgrifenedig lleol ar gyfer pontio yn y gymuned er bod angen i'r rhain gael eu deall a'u defnyddio'n well gan ymarferwyr.

Gwnaethom wyth argymhelliad penodol yn yr adroddiad gwreiddiol, ac rydym wedi asesu trwy'r ail arolygiad y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â hwy gan Fyrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc/Byrddau Troseddwyr Ifanc, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn yr ardaloedd yr ymwelasom â hwy.

### Argymhellion blaenorol

'Argymellasom y dylai Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc, Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau carcharu, ar y cyd â gwasanaethau addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, iechyd a darparwyr ymyraethau eraill, sicrhau bod:

- Effeithiolrwydd trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, a chadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid, yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson
- Cynlluniau dedfrydau Timau Troseddwyr Ifanc a sefydliadau diogel y person ifanc yn rhoi sylw i drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn y dyfodol lle bo'n briodol, a bod cynlluniau mewn Ymddiriedolaethau Prawf a dalfeydd oedolion yn ystyried gwybodaeth gan wasanaethau ieuenctid, er mwyn sicrhau bod ymyraethau sy'n dal i fod yn ofynnol yn cael eu cyflawni
- Penderfyniadau i drosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion neu i gadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid yn cael eu cofnodi yng nghofnod yr achosion ac yn ystyried barn pobl ifanc a pha waith sydd angen ei wneud i gyflawni amcanion y ddedfryd, er mwyn ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i eraill, a rheoli bregusrwydd
- Pobl ifanc yn cael eu paratoi'n drylwyr ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion
- Hysbysiadau o drosglwyddo a phob gwybodaeth hanfodol ymlaen llaw, yn cael eu hanfon at Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion mewn da bryd er mwyn sicrhau parhad cyflawni ymyraethau
- Pob darparwr ymyrraeth (gan gynnwys darparwyr iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael eu hysbysu o drosglwyddiadau i Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion ymlaen llaw ac yn cael eu cynnwys yn briodol mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion er mwyn sicrhau parhad yr hyn a gyflawnir
- Rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys, lle bo'n briodol, mewn trafodaethau ynghylch trosglwyddo ac mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion lle mae hynny'n debygol o gynorthwyo cynnydd a chydweithrediad y person ifanc
- staff mewn gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant digonol ynghylch gwaith gwasanaethau ei gilydd er mwyn eu galluogi i baratoi pobl ifanc ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion ac i weithio'n effeithiol gydag achosion a drosglwyddwyd.'

### Casgliad

Yn gyffredinol, canfu'r ail arolygiad hwn nad oedd gwelliant digonol wedi bod yn ansawdd y gwaith a gyflawnwyd wrth drosglwyddo achosion o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion. Nid oedd pontio'n cael ei drefnu'n dda, ei gofnodi'n dda nac yn rhwydd bob amser. Fodd bynnag, mae enghreifftiau penodol o arferion effeithiol yn yr adroddiad hwn a fyddai, pe'u dilynid gan bawb o'r staff, yn sicrhau pontio rhwyddach i'r bobl ifanc hyn.

## Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Byrddau Rheoli Timau Troseddwyr Ifanc, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, sicrhau bod yr argymhellion blaenorol a nodir uchod yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn effeithiol.

# 1. Trefniadau pontio

**Ffigur 1: Y broses bontio**





*Diagram a grëwyd gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi*

1.1. Y prif ddulliau asesu a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaethau ar hyn o bryd yw:

- Asset; a ddefnyddir gan Dimau Troseddwyr Ifanc (YOTs) Cymru a Lloegr, fe'i cefnogir gan amrywiaeth o systemau rheoli achosion i asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu, unrhyw bryderon diogelu, y risg o niwed difrifol a berir gan bobl ifanc sy'n troseddu o dan 18 oed, a chynhyrchu cynlluniau i ddiwallu anghenion a adnabuwyd

- System Asesu Troseddwyr (OASys); a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) ac, ar hyn o bryd, y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCau), fe'i cefnogir gan y system rheoli achosion, nDelius, i asesu'r tebygolrwydd o aildroseddu, risg o niwed difrifol i droseddwyr dros 18 oed, a chynhyrchu cynlluniau i ddiwallu anghenion a adnabuwyd.

1.2. Yn dilyn diwygiadau *Gweddnewid Adsefydlu* a rhannu gwasanaethau prawf yn ddau sefydliad ar wahân (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol), caiff y gwaith o ddyrannu troseddwyr sy'n oedolion i naill ai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol ei reoli gan y System Dyrannu Achosion (CAS). Mae tri cham i'r broses hon, ac fe'u cofnodir yn y ddogfen System Dyrannu Achosion.

- Yr offeryn Risg o Aildroseddu Difrifol (RSR). Mae'r offeryn hwn yn cynhyrchu sgôr gryno i ddangos y tebygolrwydd o'r troseddwr yn cyflawni trosedd niwed difrifol o fewn dwy flynedd. Defnyddir y sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol i benderfynu sut i ddyrannu achos.

- Sgrinio diwygiedig ar gyfer Risg o Niwed Difrifol (RoSH). Mae'r System Dyrannu Achosion yn cynnwys sgrinio Risg o Niwed Difrifol sy'n rhaid ei gwblhau ar bob troseddwr. Bydd y defnydd o'r sgrinio Risg o Niwed Difrifol yn adnabod dangosyddion o risg posibl o niwed difrifol ac yn adnabod yr achosion hynny sy'n gofyn am asesiad llawnach. Lle bo'r sgrinio'n dangos y gofyniad am ddadansoddiad llawn o Risg o Niwed Difrifol, rhaid i hyn gael ei gwblhau oni bo cyfiawnhad cadarn dros beidio â gwneud hynny.
- Mae cam terfynol y System Dyrannu Achosion yn nodi'r asiantaeth y dylid dyrannu'r achos iddi o'r sgôr Risg o Aildroseddu Difrifol, lefel risg o niwed difrifol, statws Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, budd y cyhoedd, ac a yw'r ddedfryd wedi cael ei gohirio.

1.3. Caiff achosion risg Canolig ac Isel o niwed i eraill eu trosglwyddo i Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Caiff achosion risg Uchel ac Uchel Iawn o niwed i eraill eu cadw gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Caiff rhai troseddwyr eraill eu neilltuo'n arbennig i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, er enghraifft, y rheini y rhoddwyd dedfryd oes iddynt a throseddwyr tramor sy'n destun allgludo. Mae'n hynod bwysig felly fod staff sy'n cyflawni'r asesiadau hynny'n cael yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael.

1.4. Yn yr adroddiad blaenorol, edrychodd yr arolygwyr ar achosion oedolion ifanc sy'n destun Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid a oedd wedi cychwyn mewn Tîm Troseddwyr Ifanc ac a oedd wedyn wedi cael eu trosglwyddo i Ymddiriedolaeth Prawf, ac achosion pobl ifanc a fyddai'n gymwys i drosglwyddo yn y dyfodol. Nid dyma ffurf nodweddiadol achosion a drosglwyddir. Mewn gwirionedd, sylwasom ei bod yn fwy cyffredin i berson ifanc fod o dan oruchwyliaeth tîm troseddwyr ifanc, sy'n penderfynu'n briodol i gadw'r achos, ond yna pan fo'r person ifanc yn cyflawni trosedd newydd y mae'n cael ei ddedfrydu fel oedolyn amdani. Boed tîm troseddwyr ifanc (ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) yn bwriadu trosglwyddo achos neu beidio, dylai staff allu paratoi'r person ifanc ar gyfer y trosglwyddo hwnnw i wasanaethau oedolion. Lle caiff person ifanc ei ddedfrydu fel oedolyn, nid yw bob amser yn sicr y bydd y gwasanaethau oedolion yn gwybod, hyd yn oed, fod y person ifanc yng ngofal y tîm troseddwyr ifanc.

## 2. Perfformiad o safbwynt cyflawni argymhellion blaenorol

**Yr argymhelliad cyntaf:** bod effeithiolrwydd trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, a chadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid, yn cael ei fonitro a'i adolygu'n gyson.

**Dyfarniad:** Ni chyflawnwyd yr argymhelliad.

### Arweiniad cenedlaethol

2.1. Er bod rhai mentrau defnyddiol wedi bod ers inni gyhoeddi'n hadroddiad ym mis Hydref 2012, er enghraifft, y 'Fframwaith Pontio o Ieuenctid i Oedolion', a gyhoeddwyd ym mis Medi 2012, roedd yr arolygwyr o'r farn y dylai'r rhain fod wedi bod yn gyfarwydd ac yn cael eu gweithredu'n llawn erbyn yr adeg y digwyddodd ein harolygiad. Fodd bynnag, roedd anghysondebau yn ymarferol a diffyg gwybodaeth o effeithiolrwydd trefniadau lleol ledled Cymru a Lloegr. Yn ogystal, er gwaethaf bwriad y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr y byddai'r monitro'n digwydd trwy'r 21 Uwch-reolwr Contractau a thrwy Ddirprwy Gyfarwyddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer ei 7 is-adran, nid oedd unrhyw dystiolaeth o fonitro, nac o adolygu, cenedlaethol parhaus ac effeithiol o effeithiolrwydd trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion, a chadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid.

2.2. Ac eithrio'r Cyfarwyddyd Prawf ar lefel weithredol, PI 05/2015, sy'n glir ynghylch trosglwyddiadau i mewn oddi wrth Dimau Troseddwyr Ifanc, ni welsom dystiolaeth ddigonol o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid na'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn gweithio i sicrhau y byddai, yn dilyn y newidiadau a ysgogwyd gan *Gweddnewid Adsefydlu*, cydweithrediad effeithiol rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol newydd a'r Timau Troseddwyr Ifanc. Felly, roedd trefniadau lleol effeithiol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc yn dibynnu ar waith sefydliadau lleol. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr wedi methu ag ystyried yn llawn effaith *Gweddnewid Adsefydlu* ar gysylltiadau rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion. Mae angen i'r sefydliadau cenedlaethol a lleol roi sylw i'r materion hyn.

### Arweiniad lleol

2.3. Roedd gan y mwyafrif o ardaloedd rai gweithdrefnau ar waith ar gyfer adnabod cyrchfan briodol achosion a drosglwyddir, at naill ai'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmni Adsefydlu Cymunedol. Roedd hyn yn dibynnu ar y cyfrifiad a wnaed gan ddefnyddio'r offerynnau Risg o Aildroseddu Difrifol a System Dyrannu Achosion ac yn cynnwys y lefel o risg o niwed i eraill a berid gan y person ifanc. Fodd bynnag, ac eithrio Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Dinas Derby, ni sylwasom ar unrhyw dystiolaeth o fonitro lleol. Roedd Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Dinas Derby yn adrodd yn ôl i staff ac roedd ganddynt glinig defnyddiol ac effeithiol ar gyfer cynllunio ymyraethau i gynorthwyo staff wrth sicrhau pontio rhwydd. Roedd staff yn cadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r maes hwn, gan gadarnhau eu bod yn derbyn *"gwybodaeth ynghylch cyfraddau aildroseddu gan oedolion a oedd yn dal yn 'agored' i'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc o fewn 3 blynedd o drosglwyddo, a fwydir yn ôl i reolwyr achosion, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a gweithwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol sy'n cymryd achosion drosodd, yn bwydo'n ôl ar gynnydd, ar brydiau, i reolwyr achosion y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc*".

2.4. Roedd amryw o'r ardaloedd a arolygwyd, yn enwedig mewn gwasanaethau oedolion, nad oeddent ar y cychwyn yn gallu adnabod achosion a drosglwyddwyd ar lefel weithredol, ar gyfer sampl achosion yr arolygiad. Roedd hyn yn dangos nad oedd y sefydliadau'n gwybod pwy a oedd wedi cael eu trosglwyddo, ac felly, roeddent yn annhebygol o allu teilwra cymorth yn unol â hynny, ac nad oedd fawr o ymwybyddiaeth leol o'r mater. Dywedodd staff yn y mwyafrif o wasanaethau oedolion a gwasanaethau ieuenctid ledled y wlad nad

oeddent yn gwybod fawr ddim ynghylch effeithiolrwydd trefniadau ynglŷn â phontio yn eu hardal, gan ddangos naill ai diffyg cyfathrebu a/neu fonitro gan y cyrff a arolygwyd.

**Dyfyniad: Gan aelod o staff**

"*Nid wyf yn gwybod am unrhyw adborth i staff fel sefydliad ynghylch effeithiolrwydd trefniadau trosglwyddo lleol*."

2.5. Y Tîm Troseddwyr Ifanc (ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) sy'n penderfynu a ddylid trosglwyddo achos person ifanc i wasanaethau oedolion. Weithiau, teimlai'r bobl ifanc eu hunain y byddai trosglwyddo'n beth addas i'w wneud.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dw i'n meddwl ei fod yn beth da fy mod i'n mynd at y gwasanaeth prawf, gan fy mod i'n oedolyn ac eisiau cael fy nhrin fel oedolyn*."

2.6. Roedd diffyg cysondeb a diffyg monitro penderfyniadau ledled y wlad. Roedd un sefydliad wedi penderfynu peidio â throsglwyddo unrhyw achosion i wasanaethau oedolion, oni bai eu bod yn achosion o garcharu hirdymor. Roedd ardal arall wedi penderfynu drosti ei hun y byddai pob achos ieuenctid a drosglwyddwyd o'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn cael ei reoli fel achosion Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Ymateb traws-asiantaethol yw Rheoli Integredig Troseddwyr i'r bygythiadau o droseddu ac aildroseddu a berir gan y troseddwyr mwyaf parhaus a phroblematig, sy'n cael eu hadnabod a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd. Er ein bod yn deall bod y rhain i gyd wedi cael eu hystyried fel y rhai a fyddai'n rhoi'r gwasanaeth gorau i'r bobl ifanc hyn, roedd diffyg monitro'r trefniadau hyn yn golygu na allai'r rhiant-sefydliadau eu sicrhau eu hunain bod yr arferion gorau'n cael eu cyflawni bob amser.

2.7. Roedd yr arolygwyr yn bryderus iawn mai ychydig o ardaloedd oedd â phrotocolau cyfoes i gytuno ar y llwybrau ar gyfer pontio rhwng swyddfeydd lleol Timau Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, ac mai llai fyth oedd â chytundebau â Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

2.8. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd wedi ymdrin yn effeithiol â'r mater hwn. Roedd Cymru'n ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau clir a defnyddiol i staff. Roedd gan Ddinas Derby gytundeb defnyddiol gyda llwybr clir a syml i reolwyr achosion ei ddilyn (gweler Atodiad 2) ac roedd gan Gaerefrog hefyd brotocol defnyddiol ar gyfer pontio rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd y canllawiau lleol gan Gaerefrog mewn gwirionedd yn dyfynnu i'w staff y rhan ddefnyddiol o ganllawiau a gyhoeddwyd gan y Gynghrair Pontio i Fyd Oedolion (T2A), *Taking Account of Maturity: A guide for Probation Practitioners (2013)* a'u hadroddiad ar sut i gynllunio gwasanaethau prawf effeithiol i oedolion ifanc, *Going for Gold (2012)*[1]. Roedd protocol yn rhoi canllawiau da i'w staff o ran pa mor hyblyg roedd angen iddynt fod ar yr adeg heriol hon, a oedd yn cael ei ddangos gan rywfaint o weithio effeithiol ar y cyd gan eu staff.

[1] http://www.t2a.org.uk/wp-content/uploads/2012/11/Going-for-Gold-guide.pdf

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd protocol Caerefrog yn datgan: 'Er bod y Tîm Troseddwyr Ifanc yn dal i ganolbwyntio ar y person ifanc a'i deulu ehangach ef neu hi, yn hyrwyddo egwyddorion lles ac yn cydnabod gwahaniaethau o safbwynt aeddfedrwydd ac annibyniaeth, mae'r Gwasanaeth Prawf yn canolbwyntio mwy ar y troseddwr unigol, ac yn tybio lefel o annibyniaeth, cymryd cyfrifoldeb ac aeddfedrwydd nad yw llawer o droseddwyr sy'n oedolion ifanc wedi ei gyrraedd eto. Proses ac nid digwyddiad yw pontio sy'n cychwyn yn y Tîm Troseddwyr Ifanc ac yn parhau i'r Gwasanaeth Prawf. I rai troseddwyr ifanc mae'r broses hon yn ymestyn yn sylweddol y tu hwnt i'r dyddiad trosglwyddo. Mae angen i wasanaethau addasu'r ffordd y maent yn darparu gwasanaethau i roi sylw i anghenion unigol troseddwr ifanc os ydynt am gyflawni pontio llwyddiannus. Mae gweithio hyblyg sy'n rhoi ystyriaeth i anghenion unigol y troseddwr ifanc yn holl bwysig.'

2.9. Roedd cytundeb rhwng gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion yn Stockton-on-Tees wedi cael ei ddyfynnu gan un o reolwyr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol[2] yn y dyddiadur achosion, wrth ystyried cyrchfan posibl ar gyfer achos.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Oliver[3] wedi cael Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid am ladrata. Roedd y dyddiadur achosion yn nodi 'sgwrs gyda rheolwr achos ynghylch trosglwyddo Oliver, edrychwyd ar Gwmni Adsefydlu Cymunedol neu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y drosedd yw lladrad ac er y byddai'n debygol o elwa o Gwmni Adsefydlu Cymunedol o safbwynt cyflogaeth, gan ei bod yn drosedd sy'n gymwys ar gyfer MAPPA – mae canllawiau trosglwyddo newydd yn pennu y dylai ddod at y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol'.

2.10. Roeddem yn falch o weld bod rhai rheolwyr lleol wedi meddwl mewn modd arloesol ynghylch y defnydd effeithiol o swyddogion prawf a secondiwyd mewn Timau Troseddwyr Ifanc. Roedd rhai yn ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu defnyddiol, neu'n cwblhau asesiadau Risg o Aildroseddu Difrifol neu System Dyrannu Achosion i adnabod y gyrchfan briodol ar gyfer achosion ym myd oedolion. Yng Nghaerloyw, roedd y swyddog prawf a secondiwyd yn gweithio'n effeithiol yn y ddwy swydd ym myd ieuenctid ac oedolion, gan sicrhau bod y porthol newydd yn trosglwyddo gwybodaeth. Yn Stockton-on-Tees, roedd achos wedi cael ei gadw gan y swyddog prawf a secondiwyd fel y gellid cynnig i'r person ifanc a oedd yn peri risg uchel o niwed i eraill gyfuniad o oruchwyliaeth Tîm Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf. Roedd tystiolaeth o gynllunio hirdymor gan y byddai'r achos yn trosglwyddo gyda'r swyddog prawf pan fyddai hi'n dychwelyd i'r gwasanaeth oedolion. Roedd bod wedi'i lleoli'n rhesymol agos at swyddfa'r gwasanaeth arall hefyd yn cael ei weld fel rhywbeth buddiol. Yng Nghaerloyw, roedd adolygiad addas wedi cael ei wneud o'r defnydd blaenorol o dîm arbenigol ar gyfer pontio.

**Dyfyniad: Un aelod o staff yn nodi'r gwahanol ffactorau a oedd yn gwneud pontio rhwydd yn debygol**

"*Perthynas dda gyda'r Gwasanaeth Prawf yn y llys, cael swyddog prawf wedi'i secondio yn y Tîm Troseddwyr Ifanc sy'n cynnal cysylltiadau da gyda'r Gwasanaeth Prawf, perthynas dda rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf, y Tîm Troseddwyr Ifanc yn barod i gwblhau adroddiadau cyn-dedfrydu yn y llys cyn pontio, a swyddog prawf sydd gerllaw yn ein galluogi ni i gerdded pobl ifanc draw i sicrhau eu bod yn gwybod i le maent yn mynd ac ar gyfer cyfarfodydd tair-ffordd.*"

2.11. Roedd rhai ardaloedd wedi defnyddio timau arbenigol o'r blaen, neu'n fwriadol yn dyrannu achosion trosglwyddo i reolwyr troseddwyr a oedd wedi dychwelyd o secondiadau yn y gwasanaethau ieuenctid, ond nid oedd hyn yn effeithiol bob amser wrth sicrhau bod pob

---

[2] Yn yr adroddiad hwn, mae arolygwyr wedi defnyddio 'rheolwr troseddwyr' i adnabod y gweithwyr hynny mewn gwasanaethau oedolion (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol neu Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol) a 'rheolwr achosion' i'r rheini mewn gwasanaethau ieuenctid (Timau Troseddwyr Ifanc).

[3] Enwau ffug yw'r holl enwau yn yr enghreifftiau o achosion yn yr adroddiad hwn.

achos trosglwyddo'n cael pontio rhwydd, sydd unwaith eto'n profi diffyg monitro gan y gwahanol sefydliadau.

2.12. Sylwasom ar gymysgedd o oruchwyliaeth rheolwyr yn ystod yr arolygiad hwn. Gwelsom rywfaint o oruchwyliaeth dda a chlir gyda chyfarwyddiadau manwl i staff. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion roedd cofnodi gwael; roedd rheolwyr wedi methu â sicrhau bod staff yn cwblhau asesiadau a chynlluniau, neu'n cofnodi sgyrsiau neu sesiynau pwysig gyda phobl ifanc, neu wybodaeth gan ddarparwyr gwasanaethau eraill.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Mewn sgwrs e-bost yng Nghaerefrog, ysgrifennodd un rheolwr at reolwr troseddwyr gan ddweud 'Fyddai gennych ddiddordeb mewn cymryd yr achos hwn? Byddai'n golygu rhywfaint o gyfarfodydd tair-ffordd ar y cychwyn cyn iddo droi'n 18' a chadarnhaodd e-bost dilynol y camau a fwriadwyd ar gyfer yr achos a'r rheolwr troseddwyr: 'Dw i'n anfon copi at weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc, fel y gallwch gychwyn sgwrs e-bost/ffôn gyda'ch gilydd a chychwyn cynllunio'r pontio – i gynnwys cyfarfodydd tair-ffordd. Dw i'n meddwl fy mod i'n gywir wrth gofio bod y gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc wedi cymryd cyngor ar yr adroddiad cyn-dedfrydu gan swyddog prawf arall. Fy mwriad yw gadael i chi'ch dau edrych ar y trosglwyddo (dau gyfarfod ar y cyd – un yn y Tîm Troseddwyr Ifanc ac un yma?) a threfnu'r dyddiad trosglwyddo, ar ôl ei 18fed penblwydd.'

**Ail argymhelliad:** cynlluniau dedfrydu mewn Timau Troseddwyr Ifanc ac yn sefydliadau diogel y person ifanc yn rhoi ystyriaeth i drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn y dyfodol lle bo hynny'n addas, a chynlluniau mewn Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau diogel oedolion yn rhoi ystyriaeth i wybodaeth gan wasanaethau ieuenctid, er mwyn sichrau bod ymyraethau sy'n dal yn ofynnol yn cael eu gweithredu.

**Dyfarniad:** Ni chyflawnwyd yr argymhelliad.

2.13. Er mwyn gwneud penderfyniad addas ynghylch trosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion neu beidio, neu gadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid, rhaid i Dimau Troseddwyr Ifanc yn gyntaf adnabod y bobl ifanc y maent yn eu goruchwylio sy'n dynesu at eu 18fed penblwydd. Oni bai bod y Timau Troseddwyr Ifanc yn adnabod achosion o'r fath, ni allant baratoi ar gyfer y broses o benderfynu. Dim ond mewn un Tîm Troseddwyr Ifanc y dangoswyd proses i adnabod achosion o'r fath i arolygwyr. Mewn bron i hanner y sampl achosion, ni wnaeth asesiadau ddangos y gallai'r person ifanc fod yn gymwys i'w drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yn Derby, roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi cynllunio proses syml. Unwaith pob chwe mis, roedd yn cynhyrchu rhestr o bobl ifanc a oedd yn dynesu at 18 oed, yn dileu ohoni'r achosion hynny na ellid eu trosglwyddo ac wedyn yn cychwyn trafodaeth gyda'r rheolwr achosion i weithredu eu barn broffesiynol ynghylch a ddylid trosglwyddo achos neu beidio.

2.14. Ni welsom adroddiadau cyn-dedfrydu ym mhob achos yn y gwasanaeth ieuenctid, fodd bynnag, lle gwelsom hwy, nid oeddent fel arfer yn crybwyll trosglwyddiad i wasanaethau oedolion. Roedd hyn yn siomedig, yn enwedig lle'r oedd gweithwyr Timau Troseddwyr Ifanc wedi drafftio adroddiadau a oedd yn ymdrin â throsglwyddo person ifanc i ddarpariaeth oedolion gan roi sylw i'w statws gofal. Fodd bynnag, roedd rhai adroddiadau cyn-dedfrydu a oedd yn ymdrin yn dda â'r mater hwn.

2.15. Gwelsom adroddiadau cyn-dedfrydu mewn gwasanaethau oedolion lle'r oedd pobl ifanc, 18 oed, wedi troseddu tra oeddent yn cael eu goruchwylio gan y gwasanaethau ieuenctid. Yn briodol, cyfrifoldeb staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol oedd yr adroddiadau cyn-dedfrydu hyn, fel rhan o'r broses ddyrannu. Fodd bynnag, roedd llawer o adroddiadau cyn-dedfrydu oedolion nad oeddent yn rhoi sylw i aeddfedrwydd y person ifanc wrth ystyried yr ymddygiad troseddol perthnasol.

2.16. Roedd bron i ddau draean o'r achosion gwasanaeth ieuenctid yn ein sampl heb gynllun dedfryd cychwynnol (ISP) o gwbl, neu roedd cynllun ganddynt nad oedd yn rhoi sylw i unrhyw drosglwyddo i wasanaethau oedolion yn y dyfodol. Er y gallai Tîm Troseddwyr Ifanc wedi bod wedi penderfynu cadw person ifanc o dan eu goruchwyliaeth, roedd diffyg cynllunio wrth gefn yn golygu bod, ar lawer achlysur, person ifanc yn cyrraedd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Cwmni Adsefydlu Cymunedol heb wybod beth fyddai'r darparwr gwasanaethau oedolion yn ei ddisgwyl ganddynt.

**Dyfyniad: Un aelod o staff yn cydnabod bod y gwaith paratoi yn wael**

"*Nid ydym yn paratoi pobl ifanc bob amser. Er enghraifft, maent yn troi 18 tra maent yn destun gorchymyn llys ac yn cyflawni trosedd arall, maent wedyn yn cael eu codi gan y Gwasanaeth Prawf heb unrhyw baratoi.*"

2.17. Mewn achosion lle nad oedd unrhyw gynllun dedfrydu cychwynnol, golygai hyn hefyd na allai ymyraethau a oedd yn dal angen eu gwneud neu'n parhau, ac y byddai angen iddynt gael eu cyflawni ym myd oedolion hefyd, gael eu hadnabod yn rhwydd gan reolwyr troseddwyr.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yng Nghaerloyw, canfu arolygydd gynllun dedfryd da a chlir. Darllenai'r amcan cyntaf: 'Yn wyneb natur ddifrifol troseddau Evan rhoddwyd statws s90/91 iddo a chaiff ei asesu fel un yng nghategori 2 MAPPA. Bydd felly'n destun dau fath o bontio i wasanaethau oedolion:

- Trefniadau pontio'r Gwasanaethau Prawf
- Trefniadau pontio poblogaethau carchardai sy'n oedolion

Y pontio cyntaf: Bydd Evan yn cael ei oruchwylio ar y cyd gan Orchymyn Adsefydlu Cymunedol Cyfiawnder Ieuenctid tan ei 18fed penblwydd. Bydd Evan yn cael ymweliadau cyfreithiol unwaith y mis. Yr ymweliad cyntaf ar y cyd i ddigwydd ym mis Gorffennaf 2015.

Yr ail bontio: Bydd Evan yn symud at y boblogaeth oedolion yn Parc pan fydd yn 18. Bythefnos cyn hynny, bydd ei weithiwr achos yn Parc yn cychwyn y broses, trwy ymweliad â'r adran oedolion, ac yna drwy gael ei gyflwyno i'w weithiwr achos newydd, i'w ddilyn gan ymsefydlu graddol.

Mae Evan wedi cael ei briffio ar ddau gam y pontio a bydd yn parhau i gael ei briffio ar ei gyfarfodydd adolygu yn y ddalfa.'

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Ian wedi cael ei ddedfrydu i ddedfryd amhenodol yn y ddalfa er mwyn amddiffyn y cyhoedd o dan adran 226 o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003* am drosedd dreisgar. Roedd ganddo rai mân gollfarnau blaenorol am droseddu meddiangar ac un am droseddu rhywiol. Roedd tystiolaeth hefyd yn yr asesiadau ieuenctid ac asesiadau oedolion o ymddygiad rhywiol anaddas arall nad oedd wedi cael ei droseddoli ond a oedd wedi effeithio ar ei drefniadau gofal. Roedd ei ymddygiad amhriodol wedi parhau yn y ddalfa, ond roedd y cynllun dedfryd cychwynnol yn ymwneud ag amcanion y carcharu yn unig, ac nid oeddent yn mynd i'r afael â'i ymddygiad rhywiol parhaus.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Charles wedi cael ei ddedfrydu ym mis Mehefin, o fewn mis i'w 18fed penblwydd, ond nid oedd adroddiad cyn-dedfrydu a'r asesiad yn crybwyll trosglwyddo posibl. Fodd bynnag, ar ôl ei benblwydd cwblhawyd ac anfonwyd y gwaith papur trosglwyddo ond nid oedd unrhyw dystiolaeth o gyfarfodydd ymlaen llaw gyda Chwmni Adsefydlu Cymunedol, nac o baratoi Charles ar gyfer y trosglwyddo. Digwyddodd cyfarfod tair-ffordd ar ôl trosglwyddo, ond nid oedd unrhyw gofnod o ymdrin â'r hyn a gafodd ei adnabod fel ei brif ffactor risg, sef camddefnyddio sylweddau, ers iddo gael ei drosglwyddo i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol.

2.18. Dim ond traean o'r cynlluniau yn y gwasanaethau oedolion oedd yn cael eu barnu fel rhai digonol yn ein sampl. Golygai hyn fod, ar adegau, ymyraethau nad oedd wedi cael eu cwblhau yn y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cael eu colli gan wasanaethau oedolion.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Ian wedi cael ei ddedfrydu i ddedfryd yn y ddalfa. Roedd y Tîm Troseddwyr Ifanc wedi nodi ynghynt fod angen iddo wneud rhywfaint o waith ynghylch perthnas â phobl. Ymddengys fod asesiad gan arbenigwr o'r trydydd sector wedi argymell fod angen iddo gaffael strategaethau dygymod emosiynol i ymdrin â dicter, datrys anghydfodau a datrys problemau. Ni chwblhawyd dim o'r rhain gydag ef. Nid oedd unrhyw asesiad OASys na chynllun dedfryd ar waith. Nid oedd y goruchwyliwr troseddwyr yn y carchar na'r rheolwr troseddwyr yn y gymuned yn gallu dweud pa waith a gwblhawyd gydag ef ac roedd ar fin cael ei ryddhau i'r gymuned. Nid oedd unrhyw waith wedi cychwyn erbyn adeg yr arolygiad ar gysylltiadau iach, gweithio gyda'i deulu i'w gefnogi na gosod ffiniau addas.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Adam wedi cael ei ddedfrydu i Orchymyn Adsefydlu Cymunedol fis cyn ei 18fed penblwydd am dair trosedd o fod â chyffuriau Dosbarth A yn ei feddiant gyda bwriad o gyflenwi, ac un drosedd o fod â chyffur Dosbarth B yn ei feddiant. Yn ystod ei oruchwyliaeth blaenorol gan y Tîm Troseddwyr Ifanc, roedd y prif ymyrraeth am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol, ond fodd bynnag, nid oedd unrhyw amcan yng nghynllun dedfryd y gwasanaethau oedolion i gefnogi'r gwaith hwn.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yng Nghaerefrog, gwelodd yr arolygydd weithio effeithiol ar y cyd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd Di wedi cael ei dedfrydu i Orchymyn Adsefydlu Cymunedol 24 mis am fwrgleriaeth. Roedd yr asesiad Asset wedi cofnodi ei barn yn glir ar drosglwyddo i wasanaethau oedolion. Roedd y rheolwr achos wedi cysylltu â'r Gwasanaeth Prawf mewn da bryd cyn y trosglwyddo a chynhaliwyd cyfarfod tair-ffordd da lle buont yn trafod y materion, ymyraethau a oedd yn dal angen eu gwneud, a phryderon risg a bregusrwydd, oherwydd bod Di mewn perthynas lle'r roedd yn cael ei chamdrin. Roedd gweithwyr eraill yn cael eu cynnwys ac fe wnaethant barhau i gefnogi Di, a phan nad oeddent yn gallu mynd i'r cyfarfod tair-ffordd, fe'u diweddarwyd gan y rheolwr achos a'r rheolwr troseddwyr. Roedd partner Di hefyd yn cael ei oruchwylio gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Fe wnaeth yr asesiad a'r cynllun dedfryd cychwynnol yn y Cwmni Adsefydlu Cymunedol ddefnyddio'r wybodaeth gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ac roedd yn amlwg yn adlewyrchu gwaith y Tîm Troseddwyr Ifanc gyda Di. Cadwodd y rheolwr troseddwyr gofnodion da o'r cysylltiadau a oedd yn adlewyrchu'r sefyllfa'n gywir. Roedd y cysylltiadau'n cofnodi'n glir y gwaith yr oedd y rheolwr troseddwyr yn ei gwblhau er mwyn ceisio gadw Di yn ddiogel, er enghraifft, trwy ddefnyddio cyfarfodydd Cynhadledd Aml-asiantaeth Asesu Risg (MARAC). Roedd y risg o niwed a berid i Di yn cael ei reoli ar y cyd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Roedd y pontio'n rhwydd gyda'r canlyniad cadarnhaol nad oedd unrhyw droseddu pellach wedi digwydd hyd yma.

2.19. Er na wnaeth y tîm ymweld â sefydliadau carcharu ar yr arolygiad hwn, gwelsom rywfaint o waith effeithiol gan oruchwylwyr troseddwyr yn y ddalfa. Sylwasom ar dystiolaeth ddogfennol ar ffeiliau o baratoi da gan sefydliadau carcharu ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc i sefydliadau carcharu oedolion. Nid oedd rhyw y person ifanc yn effeithio ar ein canfyddiadau. Gwelsom hefyd rywfaint o gyfathrebu da rhwng rheolwyr achos Timau Troseddwyr Ifanc, goruchwylwyr troseddwyr a rhai rheolwyr troseddwyr mewn gwasanaethau oedolion, gyda rhywfaint o fynd i gyfarfodydd tair-ffordd mewn dalfeydd.

Roedd cynlluniau dedfrydu yn cael eu drafftio'n gyffredinol gan oruchwylwyr troseddwyr ac, felly, yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar amgylchedd y ddalfa, yn hytrach nag ar gynllunio hirdymor, er bod pwysigrwydd cysylltiad â'r teulu'n cael ei nodi'n glir. Nid oeddem bob amser yn gweld rheolwyr troseddwyr wedyn yn ymweld â sefydliadau carcharu ar ôl i'r trosglwyddo ddigwydd.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Neil yn cyflawni ei ddedfryd o garchar mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc pan gafodd ei achos ei drosglwyddo yn gynnar ym mis Medi. Cysylltodd y goruchwyliwr troseddwyr â'r rheolwr troseddwyr chwe wythnos yn ddiweddarach gan ddweud: "*Roedd arnaf eisiau cysylltu â chi gan fod Neil bellach yn Hindley a fi yw ei oruchwyliwr troseddwyr a ddyrannwyd ar ei gyfer. Nid oes ganddo OASys ar hyn o bryd; deallaf mai dim ond yn ddiweddar y gallai fod wedi cael ei drosglwyddo i wasanaethau prawf oedolion o'r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc. Nid wyf yn sicr pa drefniadau sydd ar waith i wneud hyn (a fydd y Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc yn gwneud hyn fel rhan o'r trosglwyddo neu a fydd angen i chi wneud hynny'n awr?). Rwyf yn hapus i drefnu cyfarfod rhyngom. Yn wyneb natur ddifrifol ei drosedd credaf y byddai'n ddefnyddiol pe gallem drefnu cyfarfod i edrych ar ei risg, unrhyw waith a gwblhawyd a'r camau nesaf yn y sefydliadau ieuenctid*". Er ein bod yn canmol gwaith effeithiol y goruchwyliwr troseddwyr; dylai fod camau angenrheidiol wedi cael eu cychwyn gan y rheolwr achosion a'r rheolwr troseddwyr cyn y trosglwyddo.

2.20. Nid oedd staff ym myd ieuenctid nac oedolion yn cynllunio tu hwnt i atal aildroseddu ar y pryd, er bod hynny'n bwysig. Nid oeddent yn cynnwys yn ogystal gynllunio hirdymor, symud tuag at ymatal, lles a chynhwysiant cymdeithasol y person ifanc.

**Y trydydd argymhelliad:** Penderfyniadau i drosglwyddo pobl ifanc i wasanaethau oedolion neu i gadw oedolion ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid yn cael eu cofnodi yng nghofnod yr achosion ac yn ystyried barn pobl ifanc a pha waith sydd angen ei wneud i gyflawni amcanion y ddedfryd, er mwyn ymdrin â'r tebygolrwydd o aildroseddu a'r risg o niwed i eraill, a rheoli bregusrwydd.

**Dyfarniad:** Ni chyflawnwyd yr argymhelliad.

2.21. Awgrymodd yr argymhelliad blaenorol hefyd y byddai'n fuddiol i staff gael barn y person ifanc am y trosglwyddo posibl. Mae gan y gwasanaethau oedolion (y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol) ddisgwyliadau gwahanol gan eu defnyddwyr gwasanaethau i'r hyn sydd gan wasanaethau ieuenctid (Timau Troseddwyr Ifanc), wrth ganolbwyntio llawer mwy ar y person ifanc fel oedolyn annibynnol.

**Dyfyniad: Un aelod o staff yn adnabod her allweddol**

"*Mae gwahanol ideoleg rhwng y gwasanaethau gan fod gan gyfiawnder ieuenctid yn aml ideoleg lles a mwy o amser i wneud gwaith wyneb yn wyneb. Wedyn mae'r person ifanc yn aml yn teimlo ar goll ac nid yw'n deall y biwrocratiaeth mewn system rheoli troseddwyr sy'n oedolion*."

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Gwn y bydd yn rhaid imi deithio i'r swyddfa brawf ar fy mhen fy hun, caf fy ngweld gartref ar hyn o bryd neu caf gymorth i fynd i apwyntiadau swyddfa*."

2.22. Dylid cael barn y person ifanc, cyn trosglwyddo, er mwyn ymdrin â phryderon a sicrhau bod anghenion yn cael eu hadnabod a'u rhannu gyda'r darparwr gwasanaethau oedolion. Mewn dau draean o achosion, nid oedd barn y person ifanc yn cael ei gofnodi yng nghofnod yr achos.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dw i'n falch fy mod i'n aros gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc, oherwydd dw i'n eu hadnabod nhw ac yn ymddiried yn fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc; maen nhw wedi fy helpu gyda phob mathau o bethau. Dw i ddim yn siŵr y byddwn yn mynd i apwyntiadau yn y swyddfa brawf gan nad ydw i'n eu hadnabod nhw*."

2.23. Yn unol â'r argymhelliad blaenorol, roedd dau draean o'r achosion yn ein sampl yn cofnodi'r penderfyniad gwirioneddol i naill ai drosglwyddo neu gadw'r person ifanc yng nghofnod yr achos. Golygai hyn nad oedd, mewn traean o achosion, cofnod yr achos yn nodi pa waith yr oedd angen ei gyflawni i gyflawni amcanion y ddedfryd, i fynd i'r afael â'r tebygolrwydd o aildroseddu a risg o niwed i eraill a rheoli bregusrwydd y person ifanc.

2.24. Weithiau, roedd y penderfyniad i drosglwyddo wedi cael ei wneud mewn cyfarfod megis Adolygiad Plentyn sy'n Derbyn Gofal neu gyfarfod MAPPA. Dyna lle'r oedd asiantaethau eraill yn ymwneud â sicrhau bod y person ifanc yn ddiogel, neu bod y risg o niwed i eraill a berid ganddynt yn cael ei reoli. Roedd yn briodol fod y penderfyniad yn cael ei wneud yno, ond dylai fod cofnod clir o'r penderfyniad wedi cael ei wneud yn ffeil yr achos yn y Tîm Troseddwyr Ifanc, fel bod swyddogion, rheolwyr a darparwyr eraill perthnasol yn y Tîm Troseddwyr Ifanc yn cael eu diweddaru'n gyson â gwybodaeth.

2.25. Fel y nodwyd eisoes, penderfyniad y gwasanaeth troseddwyr ifanc (ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ydyw yn gyffredinol a ddylid trosglwyddo achos i'r gwasanaethau oedolion. Mae'r ffactorau i'w hystyried yn cynnwys oedran y person ifanc, a oes ganddynt anghenion y gellid eu diwallu'n well gan y Tîm Troseddwyr Ifanc neu ddarparwr i oedolion.

2.26. Yn y gwasanaethau troseddwyr ifanc, nid yw'r cydgysylltydd MAPPA lleol[4] yn gallu gweld yn rheolaidd gofnodion achosion troseddwyr MAPPA a ddelir gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. I'r rheini ar ddedfrydau cymunedol, mae'n ofynnol hysbysu ar gychwyn y gorchymyn. I'r rheini ar ddedfrydau yn y ddalfa, mae'n ofynnol i'r Tîm Troseddwyr Ifanc hysbysu cydgysylltydd perthnasol MAPPA o fanylion perthnasol pob troseddwr MAPPA, chwe mis cyn eu rhyddhau. Gwelsom 26 o achosion MAPPA; hysbyswyd 16 i MAPPA gan y Tîm Troseddwyr Ifanc, fodd bynnag, lle'r oedd y Tîm Troseddwyr Ifanc yn penderfynu rheoli achos ar lefel un (y lefel isaf, lle mae asiantaeth unigol yn rheoli'r risg o niwed i eraill a berir gan y person ifanc), nid oedd y penderfyniad hwn bob amser yn cael ei gofnodi'n glir ar gofnod yr achos, fel y mae'n ofynnol iddynt ei wneud.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*MAPPA yn cymryd rhan, fodd bynnag, dw i ddim yn deall hyn mewn gwirionedd. Cefais daflen felly gwn fy mod i wedi fy nghofrestru gyda nhw*."

2.27. Ym myd oedolion, mae cydgysylltydd lleol MAPPA yn gallu gweld cofnodion achosion prawf a rhaid i'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol / Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol nodi ar eu cofnodion rheoli achosion eu hachosion MAPPA lefel 1. Roeddem yn falch o nodi bod bron i dri chwarter o achosion wedi cynnwys hysbysu MAPPA o'r trosglwyddo i wasanaethau oedolion, er nad oedd pob penderfyniad wedi cael ei gofnodi'n glir ar gofnod yr achos.

[4] Mae gan un person rôl bwysig wrth gydgysylltu gwaith yr asiantaethau MAPPA ym mhob ardal. Hwn yw'r cydgysylltydd MAPPA. Canllawiau MAPPA 2012 Fersiwn 4

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Rhoddwyd dedfryd o garchar adran 91 i Steve am drosedd ddifrifol iawn. Er bod y gwaith o drosglwyddo'r achos wedi cael ei gynllunio ers amser maith, ni chysylltodd y rheolwr achosion â'r Gwasanaeth Prawf tan yr wythnos y cychwynnodd *Gweddnewid Adsefydlu* ac nid oeddent yn gallu ymateb yn brydlon. Fe wnaethant ymateb yn y diwedd a chynhaliwyd cyfarfod tair-ffordd ddeuddydd cyn ei ryddhau, ond nid oedd hyn yn ddigon i alluogi i berthynas gael ei datblygu rhwng Steve a'r rheolwr troseddwyr newydd. Yn ogystal, ni wnaeth y rheolwr achosion hysbysu MAPPA o'r rhyddhau a gynlluniwyd hyd nes yr oedd pythefnos wedi mynd heibio ar ôl iddo gael ei ryddhau i Fangre a Gymeradwywyd ac felly digwyddodd y cyfarfod MAPPA tua chwe wythnos ar ôl iddo gael ei ryddhau. Golygai hyn nad oedd unrhyw bontio rhwydd yn yr achos hwn a chafodd y person ifanc ei adalw i'r ddalfa wedyn.

**Y pedwerydd argymhelliad:** pobl ifanc yn cael eu paratoi'n drylwyr ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion.

**Dyfarniad:** Ni chyflawnwyd yr argymhelliad.

2.28. Nid gwaith rheolwyr achosion y Tîm Troseddwyr Ifanc yn unig yw paratoi ar gyfer trosglwyddo. Lle bo'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn ystyried trosglwyddo achos, roedd rheolwyr trefnus yn cysylltu â'u cydweithwyr cyfatebol yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (gan ddibynnu ar y lefel o risg o niwed i eraill a berid gan y person ifanc) i drafod y trosglwyddo posibl. Lle'r oedd person ifanc wedi cyflawni trosedd newydd ac am gael ei ddedfrydu, roedd rhai Timau Troseddwyr Ifanc – ac maent i'w canmol am hynny – wedi cynllunio ymlaen llaw a chysylltu â chynrychiolwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i drafod argymhellion tebygol mewn adroddiadau cyn-dedfrydu ac ynghylch pa asiantaeth y gellid rheoli'r person ifanc, ar ôl ei ddedfrydu.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yng Nghaerloyw, roedd adroddiad cyn-dedfrydu Luke am drosedd newydd yn cynghori'r llys yn glir i gynllunio cysylltiadau, gan ddweud 'Bydd Luke yn 18 oed ymhen ychydig ddyddiau, ac felly rwyf wedi cysylltu gyda'r Gwasanaeth Prawf er mwyn dyrannu'r achos i weithiwr goruchwylio yn y Gwasanaeth Prawf. Byddaf yn parhau i gysylltu â hi, ac rwyf wedi trefnu cyfarfod addas gyda hi i sicrhau trosglwyddo da o'r achos hwn a chysondeb i Luke'.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Roedd gen i bryderon, jest y mater o gyrraedd yno a beth fyddai angen i mi ei wneud, ond roedd yn bur syml. Meddyliais y byddai ymladd a thrais mewn amgylcheddau drwg, felly roedd yn well*."

2.29. Roedd y mwyafrif o bobl ifanc y cyfwelasom â hwy yn cofio rhywun yn dweud wrthynt am y posibilrwydd o drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf, cyn y trosglwyddo.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dw i'n cofio clywed y gallwn ar ryw bwynt yn ystod fy nedfryd gael fy nhrosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf, fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc oedd yr un a ddywedodd wrthyf, yna aeth hi'n sâl ac fe ges i weithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc newydd. Mae fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc presennol wedi trafod hyn gyda mi eto yn ddiweddar gan fy mod i'n 18 bellach*."

2.30. Fodd bynnag, gallai rheolwyr achosion ddymuno ystyried yn ofalus yr amser priodol i drafod trosglwyddo posibl gyda person ifanc.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dywedwyd wrthyf yn fuan ar ôl imi gael fy anfon i'r ddalfa gan fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc y byddwn yn debygol o fynd at y Gwasanaeth Prawf, oherwydd y byddwn i'n 18 yn ystod cyfnod y Drwydded. Wnes id dim meddwl o ddifrif am hyn ar y pryd gan nad oeddwn ond newydd gael fy anfon i'r ddalfa*."

2.31. Mewn llawer o achosion, roedd cofnodion achosion y Tîm Troseddwyr Ifanc yn nodi cyfarfodydd dwy-ffordd lle gallai rheolwyr achosion a rheolwyr troseddwyr (ac weithiau eu rheolwyr llinell) drafod y pontio a gynlluniwyd a'r anghenion a aseswyd ar gyfer y person ifanc. Fel dewis arall, cynhelid y drafodaeth trwy negeseuon e-bost, gyda rheolwyr wedyn yn ystyried trosglwyddo a dyrannu. Cafodd cyfarfodydd tair-ffordd rhwng y rheolwr achosion, rheolwr troseddwyr a'r person ifanc (a rhiant yn achlysurol iawn) hefyd eu cofnodi, a'u cofio gan y bobl ifanc wrth gyfweld â hwy, er bod hyn weithiau'n llai aml yn y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Cefais gyfarfod tair-ffordd. Cefais hefyd wasanaethau cymdeithasol. Dyna oedd y tro cyntaf imi gyfarfod y Swyddog Prawf, cawsom gyfarfod ynghylch trosglwyddo'r achos. Nid oedd yr ail dro ar ôl y trosglwyddo, ond roedd y trydydd un, fe wnaethon nhw ddweud yn iawn wrthyf beth fyddai'n digwydd*."

2.32. Calonogol oedd clywed y bobl ifanc y cyfwelasom â hwy yn cadarnhau eu bod wedi cael eu paratoi'n drylwyr, gan gofio cyfarfodydd a thrafodaethau gyda rheolwyr achosion a rheolwyr troseddwyr, hyd yn oed pan nad oedd y cyfarfodydd hynny wedi cael eu nodi'n glir.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dim pryderon. Dywedwyd wrthyf beth oedd disgwyliadau'r Gwasanaeth Prawf*."

2.33. Nid oedd y system rheoli achosion a ddefnyddiwyd yn y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (nDelius) yn cefnogi'r gwaith a wnaed gan y rheolwyr troseddwyr ynglŷn â phontio. Gwelsom gofnodion clir o gyfarfodydd o'r fath yn paratoi'r person ifanc ar gyfer y trosglwyddo yn y Tîm Troseddwyr Ifanc, a barnasom fod 60% o'r bobl ifanc yn ein sampl wedi cael eu paratoi'n drylwyr ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Ym myd yr oedolion, dim ond 36% o'n sampl o'r un bobl ifanc oedd â chofnodion clir o baratoi. Hyd yn oed â chaniatáu ar gyfer yr achosion hynny lle'r oedd person ifanc wedi dod yn annisgwyl yn gyfrifoldeb gwasanaethau oedolion ar ôl aildroseddu, roedd hyn yn waeth na'r hyn yr oeddem wedi'i ddisgwyl. Daeth yn glir wrth ymchwilio ymhellach nad oedd, er bod y rheolwyr troseddwyr wedi bod yn ymwneud â pharatoi'r bobl ifanc, y system nDelius yn ymddangos fel petai'n caniatáu ar gyfer creu achos hyd nes yr oedd y trosglwyddo wedi digwydd. Roedd yn bosibl i reolwyr troseddwyr gadw cofnodion megis negeseuon e-bost a'u rhoi ar y system yn ddiweddarach, ond nid oedd hyn yn ddelfrydol.

2.34. Gobeithir y bydd y porthol newydd yn cynorthwyo gyda hyn, fodd bynnag, mae angen cael hyd i ateb nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i staff gadw negeseuon e-bost ac wedyn rhoi'r wybodaeth ar y system. Roedd dau achlysur lle'r oedd anghysondebau clir rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc a gwahanol wasanaethau oedolion, a arweiniodd, mewn un achos, at fwlch o ddau fis mewn goruchwyliaeth.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Vaughan yn Blentyn yn Derbyn Gofal y gosodwyd Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid arno ym mis Ionawr am Ymosod gan Beri Niwed Corfforol Gwirioneddol, ychydig wythnosau cyn ei 18fed penblwydd. Roedd y cysylltiad diwethaf a gofnodwyd rhwng y Tîm Troseddwyr Ifanc a Vaughan ar 28 Ionawr, pryd y cofnodwyd yn ogystal eu bod wedi trosglwyddo'r achos i'r Gwasanaeth Prawf. Cadwyd Vaughan yn y ddalfa ar 06 Mawrth, tua dau fis yn ddiweddarach. Daeth cofnod cyntaf y Gwasanaeth Prawf o Vaughan pan gafodd ei gadw yn y ddalfa ym mis Mawrth, ac wedyn crëwyd asesiad OASys ym mis Mai. Roedd cofnodion yn nDelius yn dweud bod y Gwasanaeth Prawf wedi ei dderbyn fel trosglwyddiad gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ym mis Mehefin a bod eu cyswllt cyntaf wedi digwydd ym mis Gorffennaf. Nid oedd felly yn cael ei oruchwylio gan y gwasanaethau ieuenctid na'r gwasanaethau oedolion am ddau fis pan oedd yn y gymuned, ac am gyfnod pellach pan oedd yn y ddalfa.

**Cynlluniau wrth gefn**

2.35. Ni chafodd cynlluniau wrth gefn eu crybwyll yn benodol yn yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, daeth yn raddol glir yn ystod ein harolygiad nad trosglwyddiadau 'syml' oedd llawer o'r achosion yn ein sampl. Fe wnaethom adnabod trosglwyddiadau syml fel y rheini lle'r oedd pobl ifanc wedi derbyn Gorchmynion Adsefydlu Ieuenctid gweddol hir ychydig cyn eu 18fed penblwydd. Golygai hyn y gellid paratoi'r achos yn drylwyr ac wedyn ei drosglwyddo'n rhwydd, gyda'r budd o rannu gwybodaeth lawn. Sylwasom ar gyfarfodydd cynllunio dwy-ffordd rhwng y ddwy asiantaeth ac wedyn ar gyfarfodydd tair-ffordd a oedd yn cynnwys y person ifanc ac, mewn rhai achosion, eu rhieni/gofalwyr. Roedd hyn yn galluogi staff i baratoi pobl ifanc yn drylwyr.

2.36. Fodd bynnag, ar lawer achlysur yn ystod yr arolygiad hwn gwelsom achosion lle nad oedd trosglwyddo syml wedi bod. Roedd y person ifanc yn cael ei oruchwylio gan Dîm Troseddwyr Ifanc. Roedd y rheolwr achosion naill heb ystyried trosglwyddo eto, neu nid oedd y ddedfryd wreiddiol yn addas ar gyfer trosglwyddo, felly ni wnaed unrhyw baratoi ar gyfer trosglwyddo. Wedyn roedd y person ifanc wedi cyflawni trosedd ychwanegol a chael ei gollfarnu am y drosedd honno. Golygai hyn nad oedd staff y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn y llys o angenrheidrwydd yn sylweddoli bod y person ifanc eisoes yn cael ei oruchwylio gan y Tîm Troseddwyr Ifanc. Roedd yn rhaid trosglwyddo goruchwyliaeth i'r gwasanaethau oedolion, heb fod y person ifanc yn cael ei baratoi ar gyfer y ffordd wahanol y byddai'r gwasanaethau oedolion yn ei oruchwylio.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Mewn un achos, fe wnaeth gweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc a gweithiwr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ymweld â pherson ifanc yn y ddalfa, er mwyn paratoi adroddiad cyn-dedfrydu. Pan ddarganfuwyd hyn, fe wnaeth y Gwasanaeth Prawf a'r Tîm Troseddwyr Ifanc weithio'n dda gyda'i gilydd i gynhyrchu adroddiad a oedd yn rhoi dewisiadau clir i'r dedfrydwyr ar gyfer dedfrydu yn y dyfodol, ond er hynny costiodd hyn swm sylweddol i ddwy asiantaeth lle'r oedd un daith yn ddianghenraid.

2.37. Felly, roedd arolygwyr o'r farn y byddai'n fuddiol i Dimau Troseddwyr Ifanc petaent yn adnabod achosion lle byddai posibl, pe bai'r person ifanc yn aildroseddu, iddynt fod yn gyfrifoldeb y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol/Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Wedyn, lle byddent wedi cael eu hadnabod fel achosion o'r fath, gallai Timau Troseddwyr Ifanc ddilyn enghraifft ein hardal beilot, Swydd Stafford, lle'r oedd swyddog prawf ar secondiad wedi datblygu ymyrraeth syml yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng y gwasanaethau ieuenctid a'r gwasanaethau oedolion. Lle'r oedd ymdrech iawn gan bawb perthnasol, gellid cyflawni canlyniad llwyddiannus.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yng Nghaerloyw, rhoddwyd dedfryd o garchar i Patrick am drosedd dreisgar a gyflawnodd pan oedd yn feddw. Nid oedd unrhyw nodiadau ar nDelius, ond roedd nodiadau'r Tîm Troseddwyr Ifanc yn cadarnhau bod y rheolwr troseddwyr wedi mynychu cyfarfodydd ar y cyd yn y ddalfa. Roedd asesiad Asset y rheolwr achosion yn adnabod yn glir y symudiad posibl at y Gwasanaeth Prawf a hyd yn oed yn gwneud datganiadau fel 'Roedd Patrick eisoes wedi adnabod llawer o strategaethau i'w defnyddio i leihau ei ddefnydd o alcohol tra oedd ar fechnïaeth am y drosedd, gan gynnwys peidio ag yfed ymlaen llaw, mae hwn yn ffactor risg a fydd yn cael ei ystyried wrth baratoi ei oruchwyliaeth gyda'r Gwasanaeth Prawf pan gaiff ei ryddhau'. Cafodd y trosglwyddo rhwydd ei gynllunio'n ofalus, gyda hysbysiad addas i MAPPA yn cael ei nodi ar nDelius. Cafodd Patrick waith, cadwodd draw oddi wrth alcohol a chyffuriau, ni wnaeth aildroseddu, ac nid oedd ganddo ond dau apwyntiad i orffen ei oruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf, a oedd yn ganlyniad llwyddiannus.

**Y pumed argymhelliad:** Hysbysiadau o drosglwyddo a phob gwybodaeth hanfodol ymlaen llaw, yn cael eu hanfon at Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion mewn da bryd er mwyn sicrhau parhad cyflawni ymyraethau.

**Dyfarniad:** Cyflawnwyd yr argymhelliad yn rhannol.

2.38. Mae rhannu gwybodaeth gyda'r asiantaeth sy'n derbyn yn allweddol er mwyn cynorthwyo'r pontio rhwydd ac roeddem yn falch fod dau draean o achosion wedi cyflawni'r argymhelliad hwn. Mewn ffeiliau papur yn swyddfeydd Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, sylwasom ar gopïau papur o asesiadau Asset ac, yn llai aml, ar gynlluniau i reoli risg o niwed i eraill a bregusrwydd. Roeddem yn falch fod tri chwarter o'r asesiadau yn y gwasanaethau oedolion yn defnyddio gwybodaeth gan wasanaethau ieuenctid, a oedd yn welliant mewn perfformiad ers yr arolygiad diwethaf.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Howard wedi cael ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol oedolion am 12 mis. Sylwasom ar dystiolaeth dda rheolwr troseddwyr y Cwmni Adsefydlu Cymunedol yn defnyddio'r wybodaeth o Asset ar gyfer yr asesiad OASys a'r cynllun dedfryd cychwynnol. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth arall yn asesiad Asset fod Howard mewn perygl oddi wrth droseddwr hysbys a oedd yn oedolyn. Ni ddefnyddiwyd yr wybodaeth hon gan y rheolwr troseddwyr, a bu digwyddiad rhwng Howard a'r oedolyn hysbys ar y diwrnod cyntaf. Ymdriniwyd â hyn wedyn, ond gellid bod wedi osgoi'r sefyllfa.

2.39. Yn y protocol cenedlaethol blaenorol ar drosglwyddiadau[5], yr hyn a argymhellwyd fel yr arfer orau oedd y dylai cyfathrebu ynghylch trosglwyddo, mewn achosion risg uchel o niwed, ddigwydd chwe mis cyn trosglwyddo, ac yn 79% o'n hachosion risg uchel, roedd hyn wedi digwydd, a oedd yn welliant mewn perfformiad ers yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, mewn achosion risg is, dim ond 57% o achosion a hysbyswyd o fewn 3 mis ac ni chynorthwywyd hyn lle'r oedd pobl ifanc wedi aildroseddu'n annisgwyl. Fodd bynnag, golygai'r diffyg monitro i adnabod achosion trosglwyddo posibl nad oedd Timau Troseddwyr Ifanc bob amser yn gallu trefnu gweithgaredd trosglwyddo mewn da bryd ymlaen llaw, a sylwasom weithiau ar gyfarfodydd tair-ffordd a oedd wedi digwydd ar ddyddiad y trosglwyddo.

[5] Protocol trosglwyddo achosion rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr: Canllawiau i Dimau Troseddwyr Ifanc ac ardaloedd/ymddiriedolaethau prawf lleol ar drosglwyddo achosion (2009)

**Enghreifftiau o arfer nodedig:**

Wrth ymsefydlu yn y Cwmni Adsefydlu Cymunedol, roedd gwirydd sgiliau'n cael ei gwblhau a oedd yn cynnwys asesiad anabledd lle datgelodd Cory na allai ddarllen nac ysgrifennu, fodd bynnag, parhaodd y rheolwyr troseddwyr i ysgrifennu at Cory i gynnig apwyntiadau. Ni chafodd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y Tîm Troseddwyr Ifanc ei defnyddio yn yr asesiad OASys ac ni ddigwyddodd unrhyw gyfarfod tair-ffordd. Nid oedd ymddygiad blaenorol a oedd o bryder (er nad oedd yn destun unrhyw gollfarn) wedi ei gynnwys ychwaith ac roedd yn ffodus na wnaeth Cory aildroseddu.

Rhoddwyd Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid i Paul am drosedd dreisgar yn erbyn ei gyn-bartner. Cyflawnwyd troseddau treisgar newydd ym mis Hydref, ond ni sylweddolodd y rheolwr achosion hyd nes pythefnos cyn i Paul gael ei ddedfrydu (yn hwyr y mis Chwefror canlynol) y byddai'n cael ei ddedfrydu fel oedolyn. Fe wnaeth staff, felly, drefnu cyfarfod tair-ffordd, a ddigwyddodd ar ddiwrnod y dedfrydu. Cafodd yr asesiad OASys ei adael yn wag am ddau fis er i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol gwblhau'r asesiad Risg o Aildroseddu Difrifol a'r System Ddyrannu Achosion ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar nDelius o unrhyw waith paratoi. Cafodd Paul ei ddedfrydu fel oedolyn i ddedfryd ohiriedig, ond o fewn tair wythnos, roedd yn cael ei gadw yn y ddalfa am gyflawni troseddau pellach.

2.40. Roedd llawer o'r rheini y cyfwelwyd â hwy yn gobeithio y byddai'r porthol, unwaith y byddai wedi ei sefydlu, yn trosglwyddo gwybodaeth a dogfennaeth yn awtomatig, er mwyn cynorthwyo'r gwasanaethau oedolion i gael gwybodaeth.

**Y chweched argymhelliad:** Pob darparwr ymyrraeth (gan gynnwys darparwyr iechyd ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth) yn cael eu hysbysu o drosglwyddiadau i Ymddiriedolaethau Prawf a sefydliadau oedolion ymlaen llaw ac yn cael eu cynnwys yn briodol mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion er mwyn sicrhau parhad yr hyn a gyflawnir.

**Dyfarniad:** Cyflawnwyd yr argymhelliad yn rhannol.

2.41. Canfuom fod darparwyr ymyraethau eraill, megis gwasanaethau iechyd, iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau ac addysg yn cael eu diweddaru'n gyson â gwybodaeth am drosglwyddiadau, er nad oeddent yn gyffredinol yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd cynllunio yn y gymuned. Gwelsom nodiadau o gyfarfodydd cynllunio mewn sefydliadau carcharu a oedd yn cynnwys darparwyr ymyraethau eraill, er enghraifft, o'r gwasanaeth camddefnyddio sylweddau a'r rhaglen Gwella Sgiliau Meddwl Ieuenctid.

2.42. Roedd llawer o broblemau pobl ifanc nad oeddent yn ymwneud yn benodol â'u hoedran, ond a fyddai'n parhau, pa bynnag asiantaeth a fyddai'n ymdrin â hwy. Lle'r oedd y penderfyniad i drosglwyddo wedi cael ei gofnodi, ni wnaeth traean o'r achosion hynny nodi pa waith y dylid ei wneud i gyflawni amcanion y ddedfryd neu anghenion eraill a aseswyd o safbwynt y person ifanc.

2.43. Roedd cyfathrebu gydag asiantaethau allweddol eraill, gan y Cwmni Adsefydlu Cymunedol er enghraifft, yn enwedig gyda'r timau Gadael Gofal, yn parhau, er yn llai effeithiol a chyson nag ym myd ieuenctid.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yn Stockton-on-Tees, roedd Alan wedi cael Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid gyda goruchwyliaeth am drosedd rywiol. Digwyddodd y trosglwyddo a gynlluniwyd, gydag amryw o gyfarfodydd dwy-ffordd a thair-ffordd yn cael eu cynnal mewn da bryd cyn y trosglwyddo, ond yna cafodd ei arestio am dreisio honedig. Cafodd Alan ei symud o'i lety a ddyrannwyd ar ei gyfer yn sgil yr honiad newydd, ond roedd mater yn ymwneud â diogelu gyda'i frawd/chwaer iau ac felly tynnwyd sylw priodol y gwasanaethau gofal cymdeithasol plant at y pryderon diogelu. Sylwasom ar gydgysylltu da gyda Mangre a Gymeradwywyd a chyfarfod brys o MAPPA a fynychwyd gan y rheolwr achosion a'r rheolwr troseddwyr oherwydd bod lefel ei risg dynodedig o niwed i eraill wedi cynyddu'n briodol. Parhaodd yr ymchwiliad a chafodd Alan ei leoli'n ddiogel mewn llety addas.

**Y seithfed argymhelliad:** Rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys, lle bo'n briodol, mewn trafodaethau ynghylch trosglwyddo ac mewn cyfarfodydd trosglwyddo achosion lle mae hynny'n debygol o gynorthwyo cynnydd a chydweithrediad y person ifanc.

**Dyfarniad:** Cyflawnwyd yr argymhelliad yn rhannol.

2.44. Roeddem wedi argymell o'r blaen y dylai rhieni/gofalwyr y person ifanc hefyd fod yn cael eu diweddaru'n gyson â gwybodaeth yn ystod trosglwyddiadau. Ychydig o dan hanner yr achosion perthnasol a oedd wedi cynnwys rhieni/gofalwyr neu, lle'r oedd y person ifanc yn Blentyn yn Derbyn Gofal, ei weithiwr cymdeithasol neu gynrychiolydd Gadael Gofal.

2.45. Gwelsom ymwneud da a chyfathrebu parhaus gyda rhieni/gofalwyr a chynrychiolwyr o amrywiol dimau Gadael Gofal. Roedd rhai staff yn amlwg yn deall pwysigrwydd cadw unigolion allweddol o'r fath yn rhan o'r broses ac roeddent yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn iawn. Roedd rhieni/gofalwyr yn cael eu briffio'n dda iawn weithiau ar y trosglwyddo arfaethedig a disgwyliadau'r gwasanaethau oedolion. Roeddent yn mynychu cyfarfodydd tair-ffordd yn naill ai swyddfeydd y gwasanaethau ieuenctid neu oedolion, neu gartref weithiau.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Dywedwyd wrthyf gan fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc yn ystod sesiynau goruchwylio, fe ddaethon nhw hefyd i weld fy Mam a dweud wrthi am bryderon.*"

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd John wedi cael Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid tair blynedd gyda gofyn am oruchwyliaeth a dilyn rhaglen. Cysylltodd ei rieni â'r Tîm Troseddwyr Ifanc, gan amlinellu eu pryderon ynghylch trosglwyddo posibl i'r Gwasanaeth Prawf. Anfonodd y Tîm Troseddwyr Ifanc lythyr ffurfiol at rieni John yn esbonio'n ofalus pam ei fod yn cael ei drosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion ac at bwy y byddai'n cael ei drosglwyddo. Roedd hefyd yn nodi'r cyfarfodydd tair-ffordd a gweithgareddau pellach. Cafodd y llythyr hwnnw ei gopïo hefyd i'r rheolwr troseddwyr perthnasol, gan sicrhau bod pawb perthnasol yn deall y symud a oedd yn cael ei gynllunio.

**Dyfyniad: Gan aelod o staff**

"*Rydym yn esbonio beth fydd pontio yn ei olygu iddynt yn ymarferol, gan ddweud a yw'n bontio sengl, deuol neu luosog. Rydym yn cael trafodaethau cynnar gyda'r gwasanaeth prawf lle bo'n ymarferol rhwng tri – chwe mis. Rydym yn cael cyfarfodydd tair-ffordd sy'n cynnwys y person ifanc ac os yn bosibl rhieni neu ofalwyr. Rydym yn cynnwys trefniadau pontio mewn cynlluniau ymyraethau*."

**Yr wythfed argymhelliad:** staff mewn gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau oedolion yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant digonol ynghylch gwaith gwasanaethau ei gilydd er mwyn eu galluogi i baratoi pobl ifanc ar gyfer trosglwyddo i wasanaethau oedolion ac i weithio'n effeithiol gydag achosion a drosglwyddwyd.

**Dyfarniad:** Ni chyflawnwyd yr argymhelliad.

2.46. Roedd un fframwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn rhoi canllawiau i staff yng Nghymru, a oedd yn beth da. Roedd yn manylu pam fod pontio rhwydd yn bwysig ac yn fuddiol, gan gynorthwyo gyda lleihau aildroseddu ac a oedd hefyd yn rhoi canllawiau cam wrth gam i staff. Roedd cynlluniau cenedlaethol eraill wedi bod ar waith ers peth amser, megis *Fframwaith Pontio (2012)* y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ond nid oedd y rhain fodd bynnag wedi cael eu defnyddio'n llawn gan y sefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau bod pawb o'r staff yn deall yn llawn y maes allweddol hwn. Ar ôl *Gweddnewid Adsefydlu* ni welsom fawr o dystiolaeth o sefydliadau cenedlaethol yn darparu cymorth a chanllawiau cyfoes i'w staff, ac eithrio fframwaith Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd fframwaith Cymru'n nodi y bydd 'gwella pontio yn cynhyrchu canlyniadau gwell i bobl ifanc wrth iddynt gael eu cefnogi yn ystod cyfnod bregus yn eu bywydau. Bydd gwneud gwelliannau yn y ffordd y rhennir gwybodaeth rhwng Timau Troseddwyr Ifanc a gwasanaethau oedolion, carchardai oedolion a gwasanaethau eraill yn arwain at asesiadau mwy gwybodus, parhad mewn ymyraeth a chynnydd o ran diwallu eu hanghenion. Bydd hyn, yn ei dro, yn cael effaith uniongyrchol ar leihau aildroseddu.'

2.47. Teimlai dros hanner staff y gwasanaethau ieuenctid ac oedolion a arolygwyd nad oeddent yn derbyn gwybodaeth ynghylch effeithiolrwydd trefniadau lleol ar gyfer trosglwyddo pobl ifanc, gan ddisgrifio hyn mewn un achos fel 'hap a damwain ar y gorau'.

**Dyfyniad: Gan aelod o staff**

"*Ni allaf ddweud i sicrwydd – ond dychmygaf y gall ansawdd y trosglwyddo fod yn dameidiog gan ddibynnu ar ymwneud y person ifanc ac ymdriniaeth y swyddog a'r cymorth/arweiniad a roddir iddynt gan eu huwch-swyddogion*."

2.48. Mewn rhai o'n harolygon staff, roedd y staff a holwyd yn mynegi dealltwriaeth glir o fanteision paratoi, cyfarfodydd dwy-ffordd a thair-ffordd a rhannu gwybodaeth. Roeddent yn cydnabod y her lle'r oedd pobl ifanc yn cael eu dedfrydu'n annisgwyl fel oedolion ac yn gwerthfawrogi rôl y swyddog prawf a secondiwyd, lle'r oedd yn helpu cynnal cysylltiadau da gyda phob asiantaeth. Roedd y ffactorau buddiol a adnabuwyd yn cynnwys cydweithredu da, agosrwydd daearyddol swyddfeydd a phrotocolau trosglwyddo cydnabyddedig a oedd yn hysbys i'r ddau wasanaeth.

**Dyfyniad: Gan aelod o staff**

"*Teimlaf fod y cyfarfod tair-ffordd gyda'r person ifanc, y Tîm Troseddwyr Ifanc a'r Gwasanaeth Prawf yn ddefnyddiol er mwyn helpu'r pontio. Gall liniaru peth o'r ansicrwydd ynghylch y pontio. Mae hefyd yn galluogi cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r swyddog goruchwylio newydd i rannu dogfennau a gwybodaeth a gall sicrhau pobl ifanc fod y Gwasanaeth Prawf yn ymwybodol o'u gwybodaeth*."

2.49. Lle'r oedd staff wedi cael eu hyfforddi'n dda ac yn wybodus, roedd cydweithrediad rhwng y gweithwyr ieuenctid a gweithwyr oedolion yn arwain at waith neilltuol o dda, gan sicrhau pontio rhwydd i wasanaethau oedolion.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Yn Stockton-on-Tees, roedd Zeb wedi cael dedfryd o garchar am Achosi Marwolaeth trwy Yrru Peryglus pan oedd yn ifanc. Mae effaith deall ei drosedd wedi arwain at broblemau iechyd meddwl sylweddol. Fe wnaeth y rheolwr achos adnabod yn briodol y rhesymau dros drosglwyddo ac, felly, cysylltodd â'r Gwasanaeth Prawf. Cynhaliwyd cyfarfod o weithwyr proffesiynol yn y Sefydliad Troseddwyr Ifanc i rannu adroddiad seicolegol gyda rheolwr troseddwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Cwblhawyd gwaith papur trosglwyddo ac yna digwyddodd cyfarfod tair-ffordd gyda Zeb, ei fam a'i reolwyr, a chynrychiolwyr o'r gwasanaethau seicoleg ac addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Cysylltodd pawb o'r staff perthnasol â mam Zeb. Fe wnaethant hyd yn oed ei chasglu hi a Zeb ar ddyddiad ei ryddhau, i fynd â hwy at y Gwasanaeth Prawf. Cafodd hyn i gyd ei gynllunio ymlaen llaw, fel y byddai'r trosglwyddo gwirioneddol yn digwydd ar ddyddiad rhyddhau Zeb, a oedd wythnos cyn ei 18fed penblwydd. Sylwodd yr arolygydd hefyd ar dystiolaeth dda yng nghofnodion yr ymweliadau â'r Sefydliad Troseddwyr Ifanc i weld Zeb a thrafod ei farn ar gael ei drosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf ar ôl cael ei rhyddhau i'r gymuned.

2.50. Weithiau nid oedd yn angenrheidiol trosglwyddo achos er mwyn cael at wasanaethau oedolion, lle gwyddai'r staff fod y gwasanaeth arall yn gallu cynorthwyo'r person ifanc.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Wrth baratoi ar gyfer cael ei ryddhau o Orchymyn Hyfforddi a Chadw wyth mis am fod â chyffuriau dosbarth A yn ei feddiant gyda'r bwriad o'u cyflenwi, fe wnaeth Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sheffield gysylltu â Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a gofyn am i swyddog prawf gael ei neilltuo i gydweithio â Chris. Roedd Chris wedi bod yn ymddwyn yn gyson ddifrïol tuag at staff pan oedd mewn cyswllt â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, a hyn yn cynnwys ymddygiad a geiriau bygythiol, ac ymosodiad ar aelod o staff. Roedd Chris yn wirioneddol gasáu i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gael unrhyw fath o reolaeth drosto. Roedd hyn yn gadael y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid mewn sefyllfa anodd, roedd angen iddynt amddiffyn eu staff eu hunain ac nid oedd arnynt eisiau i Chris feddwl y byddai trais ac ymddygiad ymosodol yn arwain at iddynt weithredu llai o reolaeth drosto. Gwnaed cytundeb i gydweithio ag ef ac i ddal goruchwyliaeth yn y swyddfa'r Gwasanaeth Prawf. Pan drodd 18 cafodd ei ail ddedfrydu, gan ganiatáu i'r Gwasanaeth Prawf weithio ar y cyd â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Cytunwyd ar y cyd ar amodau trwydded ei ryddhau. Datblygasant ddull cyffredin a phenodol o reoli ei risg i eraill. Gweithiodd y ddau wasanaeth gyda'i gilydd a chyflawni ymyraethau i'r diben o alluogi Chris i bontio i fywyd mwy adeiladol yn gymdeithasol. Gweithiasant gyda darparwr tai a chawsant lety â chymorth iddo ac roeddent yn gallu herio ei ymddygiad a'i agweddau. Gorffennodd ei ddedfryd heb unrhyw dorri ffurfiol arni, roedd wedi setlo yn ei lety, ac nid yw wedi aildroseddu.

**Dyfyniad: Gan berson ifanc**

"*Fe wnes i drafod hyn yn ddiweddar ac fe wnaeth y ddau ohonom gytuno y byddai'n well imi aros gyda'r Tîm Troseddwyr Ifanc, roeddwn wedi cydymffurfio â'r gorchymyn, a doedd arna i ddim eisiau cychwyn adeiladu perthynas gyda phobl newydd. Dw i'n falch fy mod i wedi aros, maen nhw wedi fy helpu i, a dw i'n dod ymlaen yn dda gyda fy ngweithiwr Tîm Troseddwyr Ifanc*."

2.51. Gwnaed argraff neilltuol ar yr arolygwyr gan rai rheolwyr achosion a oedd yn dilyn yr enghreifftiau o arferion da o'r adroddiad blaenorol ac a wnaeth alwadau ffôn ar ôl trosglwyddo i reolwyr troseddwyr i glywed am gynnydd, neu drefnu cyfarfodydd ar ôl trosglwyddo, neu ymweld â chartrefi er mwyn sicrhau pontio rhwydd.

**Enghraifft o arfer nodedig:**

Roedd Justin wedi cael dedfryd o garchar am ladrad. Roedd ganddo Awtistiaeth ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, ac roedd y rheolwyr ar y ddwy ochr yn Sheffield yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau trosglwyddo cadarnhaol, gan weithwyr yn cyfarfod ar y cyd â'r oedolyn ifanc ac yn rhannu gwybodaeth gyfoes a pherthnasol. Roedd pob dogfen yn cael ei hanfon ymlaen a MAPPA yn cael eu hysbysu a rheoli'n briodol. Parhaodd gwaith ar y cyd a chynorthwyodd y rheolwr achosion y gweithiwr prawf wrth ddatblygu perthynas, a oedd yn her neilltuol gydag awtistiaeth Justin.

## Atodiad 1: Y broses arolygu

1. Cyflawnwyd adolygiad o'r llenyddiaeth sydd ynglŷn â throsglwyddo a phontio achosion o fewn y system cyfiawnder troseddol a sectorau cysylltiedig megis iechyd, addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Yn hytrach na datblygu meini prawf newydd ar gyfer arolygu, penderfynasom gynnal ail arolygiad ar sail yr argymhellion a oedd yn bod eisoes, er mwyn bod mor effeithlon â phosibl. Cafodd methodoleg yr arolygiad, gan gynnwys offerynnau asesu achosion ar gyfer achosion cymunedol, ei threialu wedyn yn ardal Swydd Stafford.
2. Wrth gyflawni'r arolygiad, ein nod oedd archwilio beth oedd ymarferwyr rheng flaen yn ei wneud i hyrwyddo pontio effeithiol yn ymarferol, yn hytrach na mesur cydymffurfiaeth â gweithdrefnau lleol neu genedlaethol. Gan ddefnyddio'r dull arbrofol hwn, edrychasom ar 50 o achosion mewn dyfnder, ar draws chwe ardal yng Nghymru a Lloegr.
3. Dewisasom gymysgedd o ardaloedd trefol a gwledig, yn siroedd ac yn ardaloedd metropolitanaidd ar gyfer yr arolygiad. Roeddem yn disgwyl gweld amrywiaeth o waith a fyddai'n ein helpu i adnabod arferion effeithiol a lle'r oedd angen gwella. Fe wnaethom gynnwys un lleoliad yng Nghymru a hefyd un lleoliad a oedd, trwy gyd-ddigwyddiad, wedi bod yn rhan o'r arolygiad blaenorol.
4. Roeddem yn cadw mewn cof mai ail arolygiad oedd hwn, felly fe wnaethom gadw at lawer o'r dull gwreiddiol ar gyfer asesu achosion a ddefnyddiwyd yn arolygiad 2012, er mwyn ein helpu ni i farnu'r cynnydd a wnaed tuag at yr argymhellion gwreiddiol er gwaethaf y ffaith ein bod yn arolygu mewn pum gwahanol ardal i'r chwech lle cynaliasom yr arolygiad cychwynnol. Er enghraifft, oherwydd y niferoedd cyfyngedig o bobl ifanc a oedd yn cael eu trosglwyddo mewn unrhyw un ardal, bu'n rhaid inni ddewis achosion ar wahanol gamau o'r broses drosglwyddo i'w harolygu. Roedd achosion lle'r oedd adroddiad cyn dedfrydu wedi cael ei baratoi yn agos at benblwydd y person ifanc yn 18 oed; achosion a oedd yn gymwys i'w trosglwyddo yn y dyfodol ac achosion a oedd eisoes wedi cael eu trosglwyddo.
5. Er gwaethaf ein hargymhelliad blaenorol, nid oedd unrhyw ddata cenedlaethol ar gael ar y nifer blynyddol o bobl ifanc yr oedd eu gorchmynion yn cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion. Wrth gynhyrchu'r rhestr o achosion i gael eu harolygu, ein dull oedd cytuno â rheolwyr yn y tair asiantaeth a'r chwe ardal i adnabod achosion a oedd o fewn y ffrâm amser gyffredinol yr oedd arnom eisiau arolygu. Yn ddelfrydol, ein gobaith oedd edrych ar achosion a oedd tua 6 i 12 mis cyn yr arolygu, er ein bod yn fodlon derbyn achosion hŷn (a oedd wedi digwydd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blaenorol). Ni lwyddodd pob ardal i adnabod chwe achos a oedd wedi cael eu trosglwyddo o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion.
6. Fe wnaeth y Timau Troseddwyr Ifanc hefyd adnabod tri achos ychwanegol a oedd yn ymwneud â pherson ifanc a oedd newydd droi 18 mlwydd oed neu ar fin gwneud hynny. Mae'r Arolygiaeth yn derbyn mai penderfyniad y Tîm Troseddwyr Ifanc (ar y cyd â'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) yw a ddylid trosglwyddo achos, gan roi ystyriaeth i bob ffactor perthnasol. Roedd ein methodoleg yn ein galluogi ni i gynnwys achosion ar y cam cyn trosglwyddo, er mwyn cadarnhau bod ystyriaeth addas yn cael ei rhoi i'r dyfarniad hwn gan staff Timau Troseddwyr Ifanc. Roedd gennym gyfanswm o 50 o achosion.
7. Digwyddodd y gwaith maes rhwng mis Mehefin 2015 a mis Gorffennaf 2015. Ymwelasom â swyddfeydd yn Sheffield, Derby, Abertawe, Caerloyw, Caerefrog a Stockton-on-Tees. Ym mhob ardal, darllenasom gofnodion perthnasol ar bapur ac ar gyfrifiaduron a chynaliasom gyfweliadau byr â'r rheolwyr troseddwyr/rheolwyr achosion a ddyrannwyd. Ein nod oedd ceisio penderfynu a oedd pob cam wedi cael ei gymryd, cyn belled ag y gellid yn rhesymol ddisgwyl, i sicrhau trosglwyddo achos yn rhwydd o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion.


8. Roedd gan y bobl ifanc yr archwiliasom eu hachosion y nodweddion canlynol, a oedd yn debyg i'r rheini yn yr arolygiad blaenorol:
   - Roedd 96% yn wrywaidd
   - Roedd 78% yn wyn
   - Roedd 34% yn Blant yn Derbyn Gofal a/neu yn gymwys ar gyfer gwasanaethau Gadael Gofal
   - Roedd 52% yn achosion a oedd yn gymwys ar gyfer MAPPA yn ystod y ddedfryd a arolygwyd
   - Roedd 27% o'r achosion yn orchmynion adsefydlu ieuenctid gyda gofynion eraill, 27% yn ddedfrydau carchar adran 91, roedd gan 20% DTOau, roedd 9% yn orchmynion cymunedol, roedd 7% yn orchmynion adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth yn unig, 4% yn orchmynion adsefydlu ieuenctid gyda chynllun cychwynnol dedfryd, 4% yn ddedfrydau cadw yn y ddalfa er mwyn amddiffyn y cyhoedd ac roedd 1 achos yn ddedfryd ohiriedig.
9. Casglwyd tystiolaeth ar gyfer yr arolygiad hwn o gyfweliadau a gynhaliwyd, ym mhob ardal, gyda rheolwyr a staff o'r tair asiantaeth (Timau Troseddwyr Ifanc, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol).
10. Cyfwelasom ag wyth o bobl ifanc, rhai ohonynt wedi cael eu trosglwyddo i wasanaethau oedolion a rhai nad oedd ddim.
11. Fe wnaethom hefyd archwilio'n electronig reolwyr achosion a rheolwyr troseddwyr o'r tair asiantaeth yn y 6 lleoliad a arolygasom a derbyniasom 50 o ymatebion.

## Y darlun cenedlaethol

12. Yn dilyn ein hymweliadau â swyddfeydd y Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Thimau Troseddwyr Ifanc, cynhaliwyd cyfarfodydd gydag uwch reolwyr â chyfrifoldeb am y broses bontio o'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Diben y cyfarfodydd oedd ystyried sut oedd y sefydliadau'n monitro ac yn adolygu'n barhaus effeithiolrwydd y weithdrefn. Cadarnhawyd nad oes unrhyw fonitro cenedlaethol o effeithiolrwydd y broses bontio yn digwydd ledled Cymru a Lloegr.
13. Mae protocol cenedlaethol ar y cyd sydd ar y gweill wedi cael ei ddrafftio, a fyddai'n ymddangos fel petai'n ateb rhai o'r materion a nodir yn yr adroddiadau hyn. Fodd bynnag, er bod y protocol yn cael ei ddosbarthu rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ar gyfer ei lofnodi, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol hefyd yn ei lofnodi, er ei bod yn ymddangos mai'r argymhelliad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd y dylent wneud hynny. Mae'r protocol yn atgoffa llofnodwyr o'u cyfrifoldeb i fonitro trefniadau yn lleol, ond ni chrybwyllir unrhyw fonitro cenedlaethol o effeithiolrwydd trefniadau.
14. Yn yr adroddiad blaenorol fe wnaeth yr Arolygiaeth ganmol prosiect peilot lle'r oedd porthol, a allai drosglwyddo dogfennau'n electronig rhwng gwasanaethau TG ieuenctid ac oedolion, yn cael ei brofi. Trwy gyd-ddigwyddiad, roedd y porthol hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru a Lloegr yn ystod haf 2015. Dim ond mewn un lleoliad y gwelsom y porthol ar waith, ond unwaith eto anogwn staff i ddefnyddio'i swyddogaethau'n llawn, gan roi sylw penodol i'w 'ddyddiadur pontio', a fyddai'n cynorthwyo staff wrth ddarparu trosglwyddiad rhwydd i bobl ifanc.
15. Enwau ffug yw'r holl enwau mewn enghreifftiau o achosion yn yr adroddiad hwn.

## Atodiad 2: Enghraifft o arfer effeithiol – diagram a ddarparwyd gan Dîm Troseddwyr Ifanc Dinas Derby

**Youth Offending Service Transfer Flow Chart to CRC/ NPS - Derbyshire**



## Atodiad 3: Geirfa

| | |
|---|---|
| nDelius | Y system reoli achosion a ddefnyddid ar adeg yr arolygiad gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. |
| HMI Probation | Arolygiaeth Prawf EM |
| Ymyraethau; adeiladol a chyfyngol | Gwaith gyda throseddwyr a gynllunnir i newid eu hymddygiad troseddol a chynorthwyo i amddiffyn y cyhoedd.<br>Ymyrraeth adeiladol yw un ac iddo'r prif ddiben o leihau aildroseddu. Yn iaith rheoli troseddwyr, gwaith yw hwn i gyflawni'r dibenion o 'helpu' a 'newid', yn hytrach na'r diben o 'reoli'. Ymyrraeth gyfyngol yw un ac iddo'r prif ddiben o gadw i isafswm risg y troseddwr o beri niwed i eraill. Yn iaith rheoli troseddwyr, gwaith yw hwn i gyflawni'r diben o 'reoli' yn hytrach na'r dibenion o 'helpu' a 'newid'.<br>Enghraifft: gyda throseddwr rhywiol, gallai ymyrraeth adeiladol fod yn un i'w rhoi trwy raglen achrededig ar gyfer troseddwyr rhywiol; gallai ymyrraeth gyfyngol (i leihau eu risg o niwed i eraill) olygu monitro'n rheolaidd a thrwyadl eu llety, eu cyflogaeth a'r lleoedd a fynychant, gan osod a gorfodi cyfyngiadau clir fel bo'n addas i bob achos.<br>Noder: Mae'r ddau fath o ymyrraeth yn bwysig. |
| IOM | Rheolaeth Integredig o Droseddwyr |
| MAPPA | Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd: lle bo'r gwasanaeth prawf, yr heddlu, y carchar ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill. |
| MARAC | Cynhadledd Aml-asiantaeth Asesu Risg; rhan o ymateb cymunedol cydgysylltiedig i gamdriniaeth ddomestig, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau statudol, cymunedol a gwirfoddol yn gweithio gyda dioddefwyr/goroeswyr, plant a'r cyflawnwr honedig. |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| OASys | System Asesu Troseddwyr |
| Risg o niwed i eraill | Hwn yw'r term a ddefnyddir yn gyffredinol gan Wasanaeth Prawf Ei Mawrhydi i ddisgrifio gwaith i amddiffyn y cyhoedd, yn bennaf wrth ddefnyddio ymyraethau cyfyngol, i gyfyngu i'r eithaf gyfle'r unigolyn i ymddwyn mewn ffordd sy'n risg o niwed i eraill. |
| ViSOR | Cronfa ddata genedlaethol gyfrinachol yw ViSOR sy'n cefnogi MAPPA. Mae'n hwyluso rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar droseddwyr treisgar a rhywiol rhwng tair asiantaeth Awdurdod Cyfrifol MAPPA (yr heddlu, y gwasanaeth prawf a charchardai). Nid acronym yw ViSOR bellach ond enw ffurfiol y gronfa ddata. |
| YJB | Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr |
| YOI | Sefydliad Troseddwyr Ifanc |
| YOT/YOS/YJS | Tîm Troseddwyr Ifanc /Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc/Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |

## Rôl yr arolygiaeth a'r cod ymarfer

Mae gwybodaeth am rôl Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan:

**http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-hmi-probation/**

Corff cyhoeddus yw'r Arolygiaeth. Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylw ar arolygiad, adroddiad, neu unrhyw fater sydd o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

*HM Chief Inspector of Probation*
*1st Floor, Manchester Civil Justice Centre*
*1 Bridge Street West*
*Manchester, M3 3FX*